

**COFNODION CYFARFOD O'R PWYLLGOR CRAFFU AR GARTREFI A'R
AMGYLCHEDD A GYNHALIWDYD YN YSTAFELL GYFARFOD 1, NEUADD Y
DREF AR DYDD MERCHER, 14 TACHWEDD 2018**

AELODAU

Y Cynghorydd Paul Pemberton, Cadeirydd
Y Cynghorydd Sonia Benbow-Jones, Is-Gadeirydd

Y Cynghorydd	Bryan Apsley	Y Cynghorydd	M G Morris
"	* Paul Blackwell	"	John Phillips
"	T Alan Edwards	"	Graham Rogers
"	Carrie Harper	"	* Paul Rogers
"	R Alun Jenkins	"	* Barrie Warburton
"	* David Maddocks	"	

*Yn absennol

Hefyd yn bresennol – Y Cynghorwyr Geoff Lowe a D J Griffiths

21 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cyflwynwyd ymddiheuriadau am absenoldeb ar ran y Cynghorwyr David A Bithell (Aelod Arweiniol Lle – yr Amgylchedd a Chludiant), Paul Blackwell, David Maddocks, Paul Rogers a Barrie Warburton.

22 CADARNHAU COFNODION

CYTUNWYD – Y dylid llofnodi Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Hydref 2018 fel cofnod cywir.

23 RHAGLEN WAITH

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid adroddiad (HF/121/18s) i gynorthwyo Aelodau i gytuno ar restr o feysydd ar gyfer testunau craffu posibl am y 12 mis nesaf ac efallai yn y tymor hirach.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y cynigion canlynol:-

- 'Protocol ar gyfer Byrddau "A" yng Nghanol y Dref' – Bod adroddiad yn y dyfodol yn cael ei gyflwyno ar y mater hwn a bod y cwmpas, fel a amlinellir yn yr adroddiad, yn cael ei gytuno yn amodol ar y diwygiad bod y pwynt cyntaf yn cyfeirio at 'fyrddau A gorgyffwrdd' a bod yr ail bwynt yn cyfeirio at 'gynllun trwyddedu cost isel'.
- 'Polisi Parcio Preswylwyr' – Bod cwmpas y Grŵp Tasg a Gorffen (fel a nodir yn Atodiad B adroddiad HF/121/18s) yn cael ei dderbyn a bod yr Aelodau a ganlyn yn ffurfio'r Grŵp Tasg a Gorffen – Cynghorwyr R Alun Jenkins, Adrienne Jeorrett, Graham Rogers, Marc Jones a Michael Morris.

- ‘Rhaglen Ailwampio Tai Gwarchod’ – Bod y ffurflen cais am bwnc berthnasol (fel a nodir yn Atodiad C adroddiad HF/121/18s) yn cael ei derbyn a bod y mater yn cael ei ystyried yng nghyfarfod mis Rhagfyr.
- ‘Cynllun Gwella Hawl Tramwy’ – Bod adroddiad yn cael ei drefnu ar gyfer cyfarfod mis Ionawr 2019.
- ‘Safonau Gwasanaeth Strydwedd’ – Bod adroddiad yn cael ei drefnu ar gyfer cyfarfod mis Ionawr 2019.
- ‘Tai Cyngor ar Osod’ – Bod adroddiad yn cael ei drefnu ar gyfer cyfarfod mis Mawrth 2019.
- ‘Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd’ – Bod adroddiad yn cael ei drefnu ar gyfer cyfarfod Ebrill 2019.
- Nid oedd unrhyw eitemau wedi’u nodi ar gyfer craffu’r gyllideb, felly ni fyddai angen yr adroddiad dros dro ar hyn yng nghyfarfod mis Rhagfyr.

CYTUNWYD – Yn amodol ar y newidiadau y soniwyd amdanynt, i gytuno’r rhaglen waith a amlinellwyd yn adroddiad HF/121/18s.

24 AMRYWIO TREFN Y RHAGLEN

CYTUNWYD – Bod Eitem 6 ar y Rhaglen – Diweddariad Diwygio Lles - yn cael ei dwyn ymlaen a’i thrafod yn y fan hon.

25 DIWEDDARIAD DIWYGIAD LLES

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Lle – Tai, adroddiad (HHE/44/18) a oedd yn rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau am ddatblygiadau gyda Rhaglen Diwygio Lles y Llywodraeth ac a oedd yn amlinellu’r gwaith a oedd wedi’i wneud gan y Cyngor ers yr adroddiad diwethaf dyddiedig 19 Mai 2018 (HHE/24/18) i liniaru effaith Diwygio Lles ar denantiaid tai Cyngor.

Wrth gyflwyno ei adroddiad, cyfeiriodd yr Aelod Arweiniol yn benodol at y newidiadau a fyddai’n cael yr effaith fwyaf ar denantiaid tai gan gynnwys lleihau’r Uchafswm Budd-Daliadau ymhellach, a chyflwyno gwasanaeth llawn Credyd Cynhwysol i’r holl denantiaid oedran gweithio yn Wrecsam.

Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd, codwyd nifer o bwyntiau gan gynnwys:-

- Pryder o ran nifer y tenantiaid sy’n dioddef o ganlyniad i’r Rhaglen Diwygio Lles. Cadarnhaodd Swyddogion fod yr Awdurdod Lleol yn gwneud ei orau i leihau’r effaith negyddol ar breswylwyr Wrecsam.
- Cynigiwyd cefnogaeth a chyngor i’r holl breswylwyr a oedd yn ei chael yn anodd ac a oedd angen cymorth. Fodd bynnag, pwysleisiodd swyddogion fod parodrwydd i ymgysylltu yn bwysig

iawn i lwyddiant yr ymyrraeth hon.

- Roedd tua 90% o hawlwr Credyd Cynhwysol a oedd yn denantiaid wedi gofyn am daliadau uniongyrchol ar gyfer rhenti, i'w helpu gyda'u cyllidebu.
- Cydnabuwyd bod gan bob cwsmer ei set ei hun o amgylchiadau a byddai'r gefnogaeth a gynigiwyd yn cael ei deilwra, gymaint â phosibl, i ddiwallu eu hanghenion unigol.
- Byddai Cyngor ar Bopeth yn cymryd cyfrifoldeb am gyllidebu digidol gyda chymorth o 1 Ebrill 2019.
Roedd pryderon y gallai amhariad a oedd yn codi o unrhyw newid o ran lleoliad neu ddarpariaeth arwain at ragor o oedi o ran taliadau gydag effeithiau dilynol pellach.
- Gwnaed cais am drafodaeth rhwng yr Awdurdod Lleol a Cyngor ar Bopeth i sicrhau nad oedd arbenigedd hanfodol yn cael ei golli.
- Roedd nifer o strategaethau i annog ymgysylltiad yn cael eu dilyn cyn troi rhywun allan o eiddo, a dim ond fel dewis olaf fyddai hyn yn digwydd.
Nid oedd achos o droi allan wedi bod o ran hawlwr Credyd Cynhwysol oherwydd ôl-ddyledion.
- Roedd Statws Partner Dibynadwy wedi'i roi i Wrecsam a oedd yn caniatáu mynediad i'r porthol landlordiaid ac yn y pen draw roedd yn galluogi'r Awdurdod Lleol i fod yn fwy rhagweithiol o ran y camau gweithredu mae'n eu cymryd.
- Roedd pob Swyddfa Ystâd yn rhoi cyfle i breswylwr gael mynediad i offer TG a darparwyd cymorth lle roedd angen.

CYTUNWYD -

- (i) Bod y Pwyllgor yn cyfleu eu diolch i'r holl staff a oedd yn rhan o weithio'n galed i sicrhau bod effaith Diwygio Lles ar breswylwr yn Wrecsam yn cael ei chadw i'r lefel isaf bosibl.**
- (ii) Bod sylwadau yn cael eu hanfon i Lywodraeth Genedlaethol i amlinellu pryderon y Pwyllgor y bydd y flwyddyn 53 wythnos yn 2019 a digwyddiadau dilynol, yn cael effaith andwyol ar rai sy'n cael Credyd Cynhwysol a dylai mesurau gael eu cymryd i fynd i'r afael â hyn.**
- (iii) Bod y Pwyllgor yn cael diweddariad pellach ymhen 6 mis am Ddiwygio Lles.**
- (iv) Bod cynrychiolwr yr Adran Gwaith a Phensiynau yn cael eu gwahodd i fynychu cyfarfod y Pwyllgor y tro nesaf y caiff y mater hwn ei drafod.**

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Lle – yr Amgylchedd a Chludiant adroddiad (HEP/88/18s) i ganiatáu i'r Pwyllgor adolygu perfformiad gwasanaeth yn erbyn safonau a gytunwyd dros dymor 2018 o ran torri glaswellt ar briffyrdd, mannau agored a thir Cyfrif Refeniw Tai.

Yn ystod y drafodaeth, fe nodwyd y pwyntiau canlynol, yn benodol:

- Cadarnhad bod lefel y gwaith a wnaed ym mhob ward yn cael ei fonitro drwy gynhyrchu taenlen sy'n cofnodi lleoliad a dyddiad y torri glaswellt ac fe'i dosbarthwyd i swyddogion ystadau.
Dim ond ers 12 mis roedd y broses hon wedi bod ar waith.
- Cadarnhad bod yr Awdurdod Lleol wedi cynyddu ei ddefnydd o staff yn ei Dîm Strydwedd ei hun yn ystod y misoedd diweddar, gan leihau'r angen i gontractwyr wneud gwaith ymyl priffyrdd.
- Pryder gan un Aelod fod y Cytundeb Lefel Gwasanaeth yn darparu ar gyfer torri lleiniau glas a llwyni sy'n eiddo i'r Cyngor unwaith y flwyddyn yn unig, ac awgrym y dylid cynyddu hyn i ddwywaith y flwyddyn.
Pwysleisiodd Swyddogion ymhellach fod ymylon priffyrdd yn cael eu torri er mwyn cydymffurfio â rheoliadau diogelwch ac nid am resymau esthetig.
- Pwysleisiodd Swyddogion, oherwydd yr adnoddau cyfyngedig, roedd gofyn i'r Awdurdod Lleol flaenoriaethu ei wasanaethau yn ôl angen.
- Roedd y Tîm Strydwedd yn addasu eu hamserlen yn unol â'r newidiadau diweddar o ran tywydd tymhorol, gyda gwasanaethau torri glaswellt yn dal i gael eu gwneud ym mis Tachwedd a byddai toriadau yn dechrau o fis Mawrth y flwyddyn nesaf.

CYTUNWYD -

- (i) Mae'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth presennol rhwng Adran yr Amgylchedd a Chynllunio a Thai a'r Economi yn darparu'r gyllideb a'r sefydlogrwydd i gefnogi safon resymol o weithrediadau tiroedd ar draws tir Cyfrif Refeniw Tai.**
- (ii) Mae'r system bresennol o reoli mannau agored a phriffyrdd gan yr adran Strydwedd yn darparu safon resymol o gynnal a chadw tiroedd.**
- (iii) Y dylid gofyn i'r Aelod Arweiniol Lle – Tai ymchwilio'r dewis o gynyddu nifer y digwyddiadau torri gwrychoedd a gynhelir ar hyn o bryd drwy CLG y Cyfrif Refeniw Tai.**

Y Cynghorydd Paul Pemberton
Cadeirydd